

GERDDI COFFA

Mae plac newydd yn coffáu tri milwr arall o Ddolwyddelan bellach yn ei le yn y Gerddi Coffa. Gadawodd y tri gŵr dewr eu cartrefi yn y pentref a bu iddynt farw o ganlyniad i frwydro dros eu gwlad. Yn drist iawn, gan eu bod wedi marw ar ôl diwedd swyddogol y rhyfeloedd, nid oeddynt wedi'u cynnwys ar y Gofeb Ryfel.

Bu farw Douglas Graham McNaughton yn Nolwyddelan yn 1922 o anaf bu iddo ei ddioddef wrth hyfforddi ym Maes Hyfforddi Parc Cinnel yn 1916. Roedd yn 26 blwydd oed.

Wedi gyrfa hir yn y Fyddin, bu'n rhaid i Albert Jones adael y Fyddin oherwydd anafiadau bu iddo eu dioddef wrth wasanaethu yn Yr Aiff yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu farw yn 1919 yn Nolwyddelan yn 30.



Ymunodd Arwen Morris Jones â'r fyddin yr eiliad roedd yn ddigon hen yn 1945. Cafodd ei ladd wrth yrru lori'r fyddin wrth wasanaethu yn Yr Almaen yn 1947. Dim ond 20 mlwydd oed oedd o.

Shaun Hewitt

